Y Cardotyn

Anton Chekhov

"Dyn caredig, bydowch yn dda wrth ddyn tlawd, newynog. Dw i ddim wedi bwyta ers tri diwrnod. Does dim darn pump copec gyda fi i dalu am lety. Wir Dduw i chi! Am bum mlynedd roeddwn i'n athro ysgol mewn pentre bach a cholles fy swydd drwy gynllwynio Zemstov. Fe wnes i ddiodde oherwydd celwydde amdana i. Does dim swydd wedi bod gyda fi ers blwyddyn nawr."

Edrychodd Skvortsov, cyfreithiwr yn Petersburg, ar got fawr garpiog, las tywyll y dyn; ar ei lygaid meddw, lleidiog; ar y lliw coch ar ei fochau, ac roedd e'n meddwl ei fod e wedi gweld y dyn yma o'r blaen rywle.

"Rwy nawr wedi cael cynnig swydd athro yn nhalaith Kaluga," aeth y cardotyn ymlaen, "ond does dim arian gyda fi i dalu am y daith yno. Fyddech chi mor garedig â rhoi help i fi! Mae cywilydd arna i'n gofyn, ond... mae amgylchiadau yn fy ngorfodi."

Edrychodd Skvortsov ar ei sgidiau, roedd un yn esgid isel a'r llall yn esgid uchel ar ei goes, ac fe gofiodd yn sydyn.

"Gwranda, echdoe fe gwrddes i â ti yn Stryd Sadovoy," meddai, "a bryd hynny, ddwedest ti ddim dy fod ti'n athro, ond dweud dy fod ti'n fyfyriwr oedd wedi ei daflu allan. Wyt ti'n cofio?"

"N-a. Na, dyw hynny ddim yn bosib!" mwmialodd y cardotyn yn ddryslyd. "Athro ysgol bentre ydw i, ac os ydych chi eisie fe alla i ddangos y papure i chi i brofi hynny."

"Dyna ddigon o gelwydde! Echdoe, roeddet ti'n galw dy hun yn fyfyriwr, ac fe wnest ti hyd yn oed ddweud pam oeddet ti wedi cael dy daflu allan. Wyt ti'n cofio?"

Aeth wyneb Skvortsov yn goch, a chyda golwg ddirmygus yn ei wyneb trodd i ffwrdd oddi wrth y cardotyn carpiog.

"Mae'n warthus!" dywedodd yn ddig. "Mae'n dwyll! Fe wna i dy roi di i'r heddlu. Damo di! Rwyt ti'n dlawd a newynog ond dyw hynny ddim yn rhoi'r hawl i ti i ddweud celwydde mor ddigywilydd!"

Gafaelodd y cardotyn carpiog yn y drws a, fel aderyn wedi'i ddal mewn trap, edrychodd o gwmpas y neuadd mewn cyfyngder.

"Dw... dw i ddim yn dweud celwydd," mwmialodd. "Fe alla i ddangos papure i chi."

"Pwy all dy gredu di? Rwyt ti'n cymryd mantais ar gydymdeimlad pobl tuag at athrawon pentre a myfyrwyr – mae'r peth mor isel, mor wael, mor frwnt! Mae'n warthus!"

Aeth Skvortsov i dymer a rhoi pregeth ddidrugaredd i'r cardotyn. Roedd celwyddau haerllug y cardotyn wedi ei gynddeiriogi. Roedd y cardotyn yn troseddu yn erbyn yr hyn roedd e, Skvortsov, yn ei garu ac yn ei barchu ynddo ef ei hun: caredigrwydd, calon dyner, cydymdeimlad â'r rhai anhapus. Drwy ei gelwyddau, drwy ei ymosodiad twyllodrus ar gydymdeimlad, roedd yr unigolyn hwn fel petai wedi llygru'r cardod y byddai e'n hoffi ei roi i'r tlawd heb unrhyw amheuon yn ei galon.

Ar y dechrau fe wnaeth y cardotyn amddiffyn ei hun, gan brotestio gyda rhegleydd, yna aeth yn dawel a hongian ei ben mewn cywilydd.

"Syr!" meddai, gan osod ei law ar ei galon. "Roeddwn i'n wirioneddol yn... dweud celwydd! Dw i ddim yn fyfyriwr nac yn athro. Ffug oedd y pethe na. Roeddwn i'n arfer bod yn y côr Rwsaidd, ac fe ges i fy nhaflu mas am fod yn feddw. Ond beth alla i neud? Credwch fi, er mwyn Duw, fedra i ddim cardota heb ddweud celwydd – pan fydda i'n dweud y gwir does neb yn fodlon rhoi dim byd i fi. Drwy ddweud y gwir gallwn farw o newyn a rhewi heb lety dros nos! Mae'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn wir, 'wy'n deall hyny, ond... beth alla i ei wneud?"

"Beth alli di ei wneud? Wyt ti'n gofyn beth alli di ei wneud?" gwaeddodd Skvortsov, gan fynd yn agos ato. "Gwaith – dyna sy'n rhaid i ti wneud! Rhaid i ti weithio!"

"Gwaith... Dw i'n gwybod hynny, ond ble alla i gael gwaith?"

"Paid siarad dwli. Rwyt ti'n ifanc, yn gryf ac yn iach, ac fe allet ti bob amser gael gwaith pe byddet ti eisiau. Ond rwyt ti'n gwybod dy fod ti'n ddioglyd, yn faldodus, ac yn feddw. Rwyt ti'n drewi o fodca! Rwyt ti wedi mynd yn ffals ac yn llwgwr ac yn werth i ddim byd ond cardota a dweud celwydde! Os wyt ti'n gostwng dy hun i gymryd gwaith rhaid i ti gael gwaith mewn swyddfa, yn y côr Rwsaidd, fel marciwr biliard, lle byddi di'n cael cyflog am neud dim byd! Ond sut fyddet ti'n hoffi gwneud gwaith corfforol? Fentra i na fyddet ti ddim yn fodlon bod yn borthor na gweithio mewn ffatri! Rwyt ti'n ormod o ŵr bonheddig i hynny!"

"Rydych chi'n dweud pethe..." meddai'r cardotyn gyda gwên chwerw. "Sut alla i gael gwaith corfforol? Mae'n rhy

hwyr i fi weithio mewn siop, oherwydd mewn masnach rhaid dechre pan y'ch chi'n fachgen, fydde neb yn fodlon fy nghyflogi i fel porthor oherwydd dw i ddim yn dod o'r dosbarth hwnnw... A allwn i ddim cael gwaith mewn ffatri; rhaid dysgu crefft, a does gen i ddim un crefft."

"Paid siarad dwli! Rwyt ti o hyd yn chwilio am esgusodion! Fyddet ti'n hoffi torri coed?"

"Fyddwn i ddim yn gwrthod, ond mae torwyr coed mas o waith nawr."

"O! Mae pob diogyn yn siarad felna! Cyn gynted ag rwyt ti'n cael cynnig rhwbeth rwyt ti'n ei wrthod. Fyddet ti'n hoffi torri coed i fi?"

"Wrth gwrs y gwna i..."

"Da iawn, gawn ni weld... Ardderchog. Gawn ni weld!" Gyda brys nerfus ac nid heb bleser maleisus, gan rwbio'i ddwylo, galwodd Skvortsov ei gogyddes o'r gegin.

"Dere, Olga," meddai wrthi, "cer â'r gŵr bonheddig 'ma i'r sied a gad iddo dorri 'chydig o goed."

Dilynodd y cardotyn y gogyddes yn anfoddog. Roedd ei holl osgo yn ei gwneud yn amlwg ei fod wedi cytuno i fynd i dorri coed, nid am ei fod yn newynog ac eisiau arian, ond oherwydd cywilydd ac *amour propre*, oherwydd ei fod wedi cael ei gymryd ar ei air. Roedd yn amlwg, hefyd, ei fod yn dioddef o effaith fodca, a'i fod yn ddyn sâl, a ddim yn teimlo fel gweithio o gwbwl.

Brysiodd Skvortsov i mewn i'r stafell fwyta. Yno, o'r ffenest oedd yn edrych allan ar yr iard, gallai weld y sied goed a phopeth oedd yn digwydd yn yr iard. Gan sefyll wrth y ffenest gwelodd Skvortsov y gogyddes a'r cardotyn yn dod drwy'r cefn i'r iard a mynd drwy'r eira mwdlyd i'r sied goed. Roedd Olga yn edrych yn gas ar y cardotyn

a dyma hi'n datgloi'r sied goed a bangio'r drws ar agor mewn tymer.

'Mwy na thebyg ein bod ni wedi torri ar draws Olga pan oedd hi'n yfed ei choffi,' meddyliodd Skvortsov. 'Dyna greadur drwg ei thymer yw hi!'

Yna gwelodd y athro ffug a'r myfyriwr ffug yn eistedd ar flocyn mawr o bren, ac yn pwyso'i fochau coch ar ei ddyrnau a meddwl yn ddwfn. Taflodd y gogyddes fwyell wrth ei draed a phoeri'n ddig ar y llawr, ac yn ôl yr olwg ar ei wyneb dechreuodd ei ddwrdio. Tynnodd y cardotyn flocyn o bren tuag ato heb unrhyw frwdfrydedd, gosod y blocyn ar ei draed, a thynnu'r fwyell yn ysgafn drosto. Cwympodd y blocyn i'r llawr. Tynnodd y cardotyn y blocyn tuag ato eto, anadlu ar ei ddwylo oedd wedi rhewi, a chododd y fwyell dros y blocyn yn ofnus fel petai ofn bwrw ei sgidiau neu dorri ei fysedd bant. Cwympodd y blocyn i'r llawr unwaith eto.

Roedd tymer ddrwg Skovstsov wedi diflannu nawr, a theimlai'n flin ac yn euog ei fod wedi gorfodi dyn maldodus, meddw ac a oedd efallai'n ddyn sâl, i wneud gwaith caled, garw yn yr oerfel.

'Does dim gwahanieth, gadewch iddo fynd mlaen â'r gwaith,' meddyliodd gan fynd o'r stafell fwtyta i'w stydi. 'Rwy'n gwneud hyn er ei les e!'

Awr yn ddiweddarach daeth Olga i'r golwg a chyhoeddi fod y coed wedi eu torri.

"Rho'r hanner rwbl yma iddo fe," meddai Skvortsov. "Os yw e eisie, fe all ddod i dorri coed ar y dydd cynta o bob mis... Fydd yna bob amser waith iddo fe."

Ar y cyntaf o'r mis fe alwodd y cardotyn eto ac unwaith eto enillodd hanner rwbl, er ei fod yn cael gwaith sefyll

ar ei draed. O hynny ymlaen fe fyddai'n dod yn aml, ac fe gafwyd gwaith iddo bob tro: weithiau fe fyddai'n sgubo'r eira'n dwmpathau, neu gymhennu'r sied, dro arall byddai'n curo'r matiau a'r carpedi. Roedd e bob tro yn cael tri deg neu bedwar deg copec am ei waith, ac un tro anfonwyd hen bâr o drowsus allan iddo.

Pan symudodd Skvortsov dŷ fe gyflogodd y cardotyn i gynorthwyo gyda'r pacio a symud y dodrefn. Y tro yma roedd y cardotyn yn sobor, yn drist ac yn dawel; doedd e heb braidd gwrdd â'r dodrefn a cherddai y tu ôl i'r faniau dodrefn gan blygu'i ben heb geisio edrych yn brysur hyd yn oed; dim ond crynu oherwydd yr oerfel a ddim yn gwybod beth i'w wneud â'i hun pan fyddai'r dynion dodrefn yn chwerthin ar ben ei ddiogi, ei wendid a'r got garpiog a fu unwaith yn eiddo i ŵr bonheddig. Ar ôl y symud anfonodd Skvortsov amdano.

"Wel, 'wy'n gweld fod 'y ngeiriau i wedi cael effaith arnot ti," meddai, gan roi rwbl iddo. "Mae hwn i ti am dy waith. 'Wy'n gweld dy fod yn sobor ac yn barod i weithio. Beth yw dy enw di?"

"Lushkov."

"Fe alla i gynnig gwell gwaith i ti, heb fod mor galed, Lushkov. Wyt ti'n gallu sgrifennu?"

"Galla syr."

"Yna, cer â'r nodyn hyn i 'nghyfaill i,ac fe wneith e roi gwaith copio i ti i'w neud. Gweithia, paid yfed, a phaid ag anghofio beth ydw i wedi'i ddweud wrthot ti. Pob hwyl i ti."

Fe wnaeth Skvortsov, oedd yn falch ei fod wedi gosod y dyn ar y llwybr cywir, roi ei law'n gyfeillgar ar ysgwydd Lushkov a hyd yn oed siglo llaw ag e wrth ymadael.

Fe gymrodd Lushkov y llythyr a mynd, ac o hynny allan ddaeth e ddim nôl i'r iard gefn i weithio.

Aeth dwy flynedd heibio. Un dydd roedd Skvortsov yn sefyll yn swyddfa docynnau theatr, yn talu am ei docyn, pan welodd wrth ei ochr ddyn bach gyda chot â choler o groen oen a chap siabi o groen cath am ei ben. Gofynnodd y dyn yn ofnus i'r clerc am docyn galeri a thalu mewn copecau.

"Lushkov, ti sy 'na?" gofynnodd Skvortsov, gan adnabod y dyn bach fel ei gyn dorrwr coed. "Wel, beth wyt ti'n ei wneud? Wyt ti'n dod mlaen yn iawn?"

"Eitha da... Dw i'n gweithio mewn swyddfa cyfreithiwr nawr. Dw i'n ennill tri deg pump rwbl."

"Wel, diolch i Dduw, dyna dda. 'Wy'n falch iawn drosot ti. 'Wy'n falch iawn, iawn Lushkov. Wyt ti'n gwybod, mewn ffordd, ti yw fy mab bedydd. Fi wthiodd ti i'r cyfeiriad iawn. Wyt ti'n cofio'r bregeth ofnadwy roddes i i ti, e? Fuest ti bron mynd drwy'r llawr bryd hynny. Wel, diolch i ti, rhen fachgen, am wrando ar 'y ngeiriau i."

"Diolch i chi hefyd," meddai Lushkov. "Pe bawn i heb ddod atoch chi'r diwrnod hwnnw, falle byddwn i'n dal i alw'n hunan yn athro neu'n fyfyriwr. Ie, yn eich tŷ chi y ces i'n achub a dringo mas o'r twll du."

"'Wy'n falch iawn, iawn."

"Diolch i chi am 'ych geiriau a'ch gweithredoedd caredig. Roedd beth ddwedoch chi'r diwrnod hwnnw yn ardderchog a dwi'n ddiolchgar i chi ac i'ch cogyddes... Duw fendithio'r wraig garedig honno a'i chalon fawr. Roedd beth ddwedoch chi'n ardderchog; ac fe fydda i'n ddyledus i chi tra bydda i byw, wrth gwrs, ond eich cogyddes chi, Olga, wnaeth fy achub i mewn gwirionedd."

"Sut hynny?"

"Fel hyn oedd hi. Fe fyddwn i'n arfer dod i dorri coed i chi ac fe fydde hi'n dechre: 'A! y meddwyn! Y dyn colledig fel ag wyt ti! Ac eto dyw marwolaeth ddim yn dy gymryd di!' ac yna fe fydde hi'n eistedd gyferbyn â fi, yn galaru, yn edrych yn y 'ngwyneb i ac yn crio: 'Y dyn anlwcus â ti! Does dim hapusrwydd i ti yn y byd 'ma, ac yn y nesa fe fyddi di'n llosgi yn uffern. Druan â ti, y meddwyn! Druan â ti, greadur trist!' ac roedd hi'n mynd mlaen fel 'na bob amser, chi'n gwybod. Roedd hi'n gwneud ei hun yn sâl, a wn i ddim faint o ddagre gollodd hi drosta i. Ond yr hyn a gafodd yr effaith fwya arna i – fe dorrodd hi'r coed i fi! Wyddoch chi, syr, na thorres i ddim un dam o bren i chi – hi wnaeth y cwbwl! Sut achubodd hi fi, sut newidiais i drwy edrych arni hi a rhoi'r gorau i yfed, fedra i ddim esbonio. Y cyfan dwi'n wybod yw bod yr hyn ddwedodd hi a'r ffordd garedig wnaeth hi fy nhrin i wedi creu newid yn fy enaid i, a wna i byth anghofio hynny. Mae'n amser i fi fynd, maen nhw ar fin canu'r gloch."

Moesymgrymodd Lushkov a mynd lan i'r galeri.

Addasiad Emyr Llywelyn